# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

**1) Manylion**

**1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?**

Cyflwyno Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Rheoli'r defnydd o dai fel cartref gwyliau (ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr)

**1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?**

Pwrpas y Canllaw hwn yw amlygu'r ystyriaethau polisi cynllunio lleol yn dilyn gweithredu ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Mae'r arweiniad polisi cynllunio wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn). Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol.

Yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4, mae'n golygu fod hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y defnyddiau canlynol wedi cael ei ddiddymu:-

(a) Newid defnydd o C3 i C5 neu C6 a defnyddiau cymysg penodol;
(b) Newid defnydd o C5 i C6 neu ddefnyddiau cymysg penodol;

(c) Newid defnydd o C6 i C5 neu ddefnyddiau cymysg penodol.

Diffiniad o’r defnyddiau:-
**C3 – Tai annedd, a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd:** Tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa a'i feddiannu am fwy na 183 diwrnod mewn blwyddyn galendr
**C5 - Tai Annedd, a ddefnyddir yn wahanol i unig neu brif breswylfa:** Tai annedd a ddefnyddir yn wahanol i unig neu brif breswylfa a'u meddiannu am 183 diwrnod neu lai.
**C6 - Llety Gosod tymor byr:** Tai annedd a ddefnyddir ar gyfer llety gosod tymor byr masnachol heb fod am fwy na 31 diwrnod ar gyfer pob cyfnod o feddiannaeth.

Golygai hynny, er enghraifft, fod angen derbyn caniatâd cynllunio i newid defnydd tŷ preswyl sydd yn brif gartref (Defnydd C3) i fod yn ail gartref (Defnydd C5) neu yn llety gwyliau (Defnydd C6).

Yn flaenorol roedd y datblygiadau hyn yn ‘hawl datblygu a ganiateir’ yn unol â’r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y diwygiwyd), hynny yw, roedd posib newid defnydd tŷ preswyl i ddefnydd gwyliau (llety gwyliau neu ail gartref) heb fod angen derbyn hawl cynllunio ar gyfer y defnydd hynny.

### 1.3 Pwy sy’n gyfrifol am yr asesiad yma?

Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1.

Paratowyd yr Asesiad hwn er mwyn cefnogi’r fersiwn drafft ymgynghori o’r Canllaw Cynllunio Atodol. Bydd yr Asesiad yn rhan o becyn gwybodaeth a fydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd er mwyn cynorthwyo eu penderfyniad i gymeradwyo (neu beidio) cyhoeddi’r CCA ar gyfer cyfnod o ymgynghori cyhoeddus (6 wythnos).

Yn dilyn y penderfyniad, bydd yna gyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal, cyn adrodd ar y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus i’r Cabinet er derbyn eu cymeradwyaeth terfynol.

Yn ystod pob cam o’r broses fe fwriedir diwygio ac addasu’r asesiad hyn yn unol â’r angen.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw’r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Oherwydd natur pwnc y CCA mae’n bosib y bydd yn cael effaith anuniongyrchol ac uniongyrchol ar bawb (pawb angen cartref i fyw ynddo), gan hynny nid oes yna bartneriaid neu fudd-ddeiliaid penodol wedi cael ei gysylltu â hwy wrth gynnal yr asesiad.

Er mwyn gallu rhoi pwysau ar y CCA fel ystyriaeth gynllunio faterol (hynny yw yn rhan o'r ystyriaethau perthnasol wrth asesu a phenderfynu ar gais cynllunio), ac yn unol â'r arweiniad sydd wedi ei gynnwys yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), fe ddylai CCA fod yn destun ymarferiad ymgynghori cyhoeddus a chael eu mabwysiadu drwy benderfyniad y Cyngor. Ymhellach fe nodir y dylid:-

- Trafod gyda swyddogion rheoli datblygu.
- Dylid ymgynghori ag ymgyngoreion perthnasol
- Dylid sicrhau bod canllawiau cynllunio atodol drafft ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

I'r perwyl hyn, fe fyddem yn cysylltu yn uniongyrchol a'r ymgynghorwyr statudol (*specific consultation bodies*) fel y nodir yn Rheoliadau CDLl (2005). Ymhellach mae'n fwriad anfon gohebiaeth at restr o unigolion sydd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r basdata yn cynnwys oddeutu 1,300 o gysylltiadau.

Mae'r broses o baratoi, ymgynghori a derbyn cymeradwyaeth (os penderfynir gwneud hynny) o'r CCA yn cael ei wneud yn unol â'r arweiniad a gynhwysir yn y Nodyn Trefniadau ar gyfer Paratoi a Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a rhanddeiliaid cysylltiedig, sydd wedi ei baratoi.

Fel rhan o'r broses o gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus fe fydd y mesurau canlynol yn cael ei gymryd er codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cyfnod ymgysylltu cyhoeddus:-

- Deunydd ym mhrif Swyddfeydd y Cyngor (Caernarfon, Dolgellau a Phwllheli)
- Deunydd yn llyfrgelloedd lleol y sir
- Tudalen we Canllawiau Cynllunio Atodol
- Cyfryngau cymdeithasol (Instagram, X a Facebook)
- Rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos

Bydd ffurflen gyflwyno sylwadau safonol i gyd-fynd â'r CCA yn cael ei ddarparu ar ffurf electroneg a phapur.

Gobeithir bydd y trefniadau ymgynghori a nodir uchod yn sicrhau fod yr holl fudd-ddeiliad perthnasol yn ymwybodol o'r bwriad a'u cyfle i leisio barn trwy'r cyfryngau pwrpasol.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Hyd yma mae'r camau ymgysylltu gyda'r cyhoedd wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, fe fydd ymgynghori yn rhan hanfodol o'r cam nesaf yn y broses.

Bydd y camau ymgysylltu yn gwbl agored (proses ymgynghori cyhoeddus) i unrhyw unigolyn ymateb iddo. Bydd y broses o godi ymwybyddiaeth a gyfeirir ato uchod (ymateb cwestiwn 2.1) yn cael eu defnyddio ynghyd a'r dull o gyflwyno sylwadau fel a chanlyn:-

- Holiadur pwrpasol gan ddefnyddio meddalwedd ar lein bwrpasol (Limesurvey)
- Holiadur papur
- Cyfle i ymateb drwy lythyr
- Cyfle i ymateb drwy e-bost
- Cyfle i drafod y bwriad hefo Swyddogion perthnasol

Er mwyn hwyluso'r broses o roi sylwadau ar y bwriad, fe fydd posib (ar gais) dderbyn copi o'r dogfennau mewn iaith a fformatau gwahanol. Gobeithir y bydd y gallu i wneud hynny yn rhoi'r hyblygrwydd i bobl, gan gynnwys rhai a nodweddion gwarchodedig gael mewnbwn i'r broses.

Er nad oes arweiniad penodol o ran y gofynion/dull ymgynghori, er mwyn uchafu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl leisio eu barn ystyrir yn briodol fod y cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal am gyfod o 6 wythnos.

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bydd cwestiwn penodol yn cael ei ofyn fel rhan o'r broses er mwyn galluogi mesur ac asesu effaith y penderfyniad ar y Gymraeg. Ymhellach, yn unol â ymarfer da fe fydd cyfres o gwestiynau cydraddoldeb yn cael ei ofyn er mwyn sicrhau fod yna croestoriad o bobl yn ymateb.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Mae'r arweiniad a gynhwysir o fewn y CCA yn deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Dylid nodi fod y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn un sydd yn cynnwys nifer o gamau statudol gan gynnwys yr angen i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ynghyd ac Asesiad Effaith iaith Gymraeg. Pwysleisir gan hynny fod y CCA yn ymhelaethu ar bolisïau sydd eisoes wedi bod yn destun archwiliad manwl.

Y Cynllun Datblygu mabwysiedig, sef Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn sydd yn gosod y fframwaith bolisi cynllunio lleol er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio. Yn unol â'r gofynion sydd wedi ei osod yn adran 38(6) o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol fod penderfyniadau Cynllunio yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod yna ystyriaethau cynllunio perthnasol yn nodi fel arall.

Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cyngor wedi/yn paratoi amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi'r Cynllun.

Ymhellach fe ddaeth y newidiadau deddfwriaethol yn gysylltiedig â'r newidiadau i'r dosbarthiadau defnydd i rym ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (ynghyd a gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig). Amlygir gan hynny nad yw polisïau'r Cynllun wedi ei baratoi gydag amcan ehangach y Cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn golwg, gan hynny mae paratoi'r CCA hyn yn fodd o ddarparu'r arweiniad perthnasol.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Ystyrir fod y dystiolaeth sydd wedi ei gasglu yn wydn ac yn addas ei bwrpas. Pwysleisir fod yr arweiniad yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd eisoes wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus a phroses asesu trylwyr. Bydd unrhyw fylchau a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses o ymgymryd â'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn derbyn sylw a gweithredu arnynt fel yn briodol. |

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | | Bydd cyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad pellach ar yr ystyriaeth polisi cynllunio lleol yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CCA Drafft bydd y dogfennau perthnasol a fydd yn cael ei baratoi er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau yn nodi'n glir fod posib i unigolion dderbyn y dogfennau mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol.<br><br>Nid oes unrhyw anghenion ymgynghori ychwanegol wedi ei hadnabod ar gyfer y nodwedd yma.<br><br>Pwysleisir mai cyflwyno arweiniad pellach i'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) mae'r CCA yn ei wneud ac nid yw'n cyflwyno polisïau o'r newydd. Mae'r CDLl ar y Cyd eisoes wedi bod yn destun proses asesu trylwyr yn ystod y broses o'i baratoi a'i fabwysiadu. |
| | Positif | Gall gweithredu'r CCA gael effaith ar y farchnad dai, gan achosi prisiau is, fydd yn effeithio pobl leol gyda chartref yn yr ardal ynghyd â phobl sydd ag ail gartrefi neu lety gwyliau. Gall fod o fantais felly i bobl sydd eisiau prynu tai yn yr ardal, boed y rheini yn bobl leol, pobl sydd eisiau dychwelyd i'r ardal neu bobl o ardaloedd / gwledydd eraill. |
| | Negyddol | Wedi dweud hynny, disgwylir peth sgil effaith negyddol hefyd, fydd yn effeithio'n arbennig ar drigolion lleol oherwydd bydd cyfyngu ar y defnydd y gellir ei wneud o'r uned breswyl. Ymhellach gall yr ymyrraeth fod yn rhwystr i unigolion sydd yn dymuno buddsoddi yn y farchnad tai gwyliau, boed y rheiny'n lleol neu beidio. |
| **Anabledd** | | Bydd cyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad pellach ar yr ystyriaeth polisi cynllunio lleol yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CCA Drafft bydd y dogfennau perthnasol a fydd yn cael ei baratoi er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau yn nodi'n glir fod posib i unigolion dderbyn y dogfennau mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol.<br><br>Nid oes unrhyw anghenion ymgynghori ychwanegol wedi ei hadnabod ar gyfer y nodwedd yma.<br><br>Pwysleisir mai cyflwyno arweiniad pellach i'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) mae'r CCA yn ei wneud ac nid yw'n cyflwyno polisïau o'r newydd. Mae'r CDLl ar y Cyd eisoes wedi bod yn destun proses asesu trylwyr yn ystod y broses o'i baratoi a'i fabwysiadu. |
| | Positif | Prif nod y Canllaw yw ceisio sicrhau fod yna reolaeth well yn y defnydd o wneir o dai ac mewn canlyniad fod yna ddarpariaeth o dai yn bodoli i ddiwallu anghenion unigolion sydd yn chwilio am gartref.<br><br>Mae'n bosib y bydd yna effaith ar y farchnad dai, yn golygu y bydd prisiau tai yn gostwng. Gallai hyn olygu y bydd mwy o bobl anabl mewn sefyllfa i allu prynu tŷ addas, neu fod a mwy o arian ar ôl ei brynu i wneud addasiadau. Dylid nodi fod teuluoedd ag aelod anabl yn ystadegol yn fwy tebygol o brofi tlodi ariannol na theuluoedd heb aelod anabl (A yw Cymru'n Decach, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol tud 60). |
| | Negyddol | Pe bai prisiau tai yn gostwng gall achosi effeithiau negyddol hefyd. Gall fod yna achosion ble fo unigolyn wedi penderfynu addasu ei dŷ preswyl er mwyn ei wneud yn addas i'w anghenion hwy a hynny'n seiliedig ar sicrhau fod y buddsoddiad yn ei addasu yn mynd i gael ei adfer yng ngwerth yr eiddo. Gall y penderfyniad i fuddsoddi fod wedi ei wneud pan fo gwerth yr eiddo yn uwch, pan nad oedd unrhyw gyfyngiad yn bodoli ar y defnydd a ellir ei wneud o'r tŷ preswyl. Gan hynny, yn sgil yr ymyrraeth (cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4) mae yna risg o golledion ariannol ar gyfer achosion o'r fath.<br><br>Ymhellach, mae posibilrwydd y bydd yno lai o ddarpariaeth o lety gwyliau yn bodoli a thrwy hynny llai o gynigion yn bodoli o ran llety gwyliau sydd yn cyfarch anghenion unigolion ag amhariadau penodol. |
| **Rhyw** | Dim effaith | Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o gyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen. |

| | | |
|---|---|---|
| **Oedran** | | Bydd cyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad pellach ar yr ystyriaeth polisi cynllunio lleol yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CCA Drafft bydd y dogfennau perthnasol a fydd yn cael ei baratoi er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau yn nodi'n glir fod posib i unigolion dderbyn y dogfennau mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol.<br><br>Nid oes unrhyw anghenion ymgynghori ychwanegol wedi ei hadnabod ar gyfer y nodwedd yma.<br><br>Pwysleisir mai cyflwyno arweiniad pellach i'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) mae'r CCA yn ei wneud ac nid yw'n cyflwyno polisïau o'r newydd. Mae'r CDLl ar y Cyd eisoes wedi bod yn destun proses asesu trylwyr yn ystod y broses o'i baratoi a'i fabwysiadu. |
| | Positif | Ar gyfartaledd mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi ei brisio allan o'r farchnad dai. Mae'r canran hyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd gan olygu fod unigolion sydd yn dymuno cael ar y farchnad dai yn ei chael yn anodd gwneud hynny. Yn aml bobl ifanc sydd yn wynebu'r her hyn. Gobeithir gan hynny y bydd yr CCA yn cael effaith bositif ar yr unigolion hynny, ac ar unigolion o bob oed. |
| | Negyddol | Pe bai gostyngiad mewn prisiau tai yn sgil yr arweiniad a gynhwysir yn y CCA gallai hynny gael effaith negyddol anghymesur ar bobl hŷn os ydynt yn bwriadu gwerthu'r cartref teuluol er mwyn prynu tŷ llai er mwyn rhyddhau ecwiti. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim effaith | Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o gyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim effaith | Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o gyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim effaith | Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o gyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith | Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o gyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen. |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim effaith | Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o gyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd cyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad pellach ar yr ystyriaeth polisi cynllunio lleol yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CCA Drafft bydd y dogfennau perthnasol a fydd yn cael ei baratoi er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau yn nodi'n glir fod posib i unigolion dderbyn y dogfennau mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol.<br><br>Nid oes unrhyw anghenion ymgynghori ychwanegol wedi ei hadnabod ar gyfer y nodwedd yma.<br><br>Pwysleisir mai cyflwyno arweiniad pellach i'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) mae'r CCA yn ei wneud ac nid yw'n cyflwyno polisïau o'r newydd. Mae'r CDLl ar y Cyd eisoes wedi bod yn destun proses asesu trylwyr yn ystod y broses o'i baratoi a'i fabwysiadu.<br><br>Mae'r arweiniad a gynhwysir o fewn y CCA yn amlygu'r angen i sicrhau fod unrhyw ddarpar ddatblygiad yn cydymffurfio gyda'r arweiniad a gynhwysir o fewn y CDLl ar y Cyd, sydd gan hynny yn cynnwys Polisi Strategol 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig).<br><br>Mae ceisio gwella y cyfleodd sydd ar gael i bobl fod yn byw yn eu cymunedau brodorol yn fanteisiol o ran ffyniant y Gymraeg a'r defnydd o'r iaith.<br><br>Er nad yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar statws a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, mae'r ffigyrau fforddiadwyedd yn dangos i ni fod canran uchel o bobl Gwynedd yn methu fforddio prynu cartrefi oherwydd y bwlch rhwng cyflogau cyfartalog a phrisiau tai. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn fwy tebygol o symud allan o'r sir i ganfod cyfleoedd gwaith fydd yn rhoi gwell cyflogau a gwell cyfle o allu fforddio prynu eiddo. Mae'r allfudo yma yn arwain at newid yn y ddemograffeg, sydd yn ei dro yn effeithio ar hyfywedd ieithyddol yn y cymunedau. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | | Bydd cyflwyno'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad pellach ar yr ystyriaeth polisi cynllunio lleol yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CCA Drafft bydd y dogfennau perthnasol a fydd yn cael ei baratoi er mwyn hwyluso'r broses o |

| | | |
|---|---|---|
| | Positif<br><br>Negyddol | gyflwyno sylwadau yn nodi'n glir fod posib i unigolion dderbyn y dogfennau mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol.<br><br>Nid oes unrhyw anghenion ymgynghori ychwanegol wedi ei hadnabod ar gyfer y nodwedd yma.<br><br>Pwysleisir mai cyflwyno arweiniad pellach i'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) mae'r CCA yn ei wneud ac nid yw'n cyflwyno polisïau o'r newydd. Mae'r CDLl ar y Cyd eisoes wedi bod yn destun proses asesu trylwyr yn ystod y broses o'i baratoi a'i fabwysiadu.<br><br>Un sgil effaith posib yr arweiniad a gynhwysir yn y CCA yw'r effaith a allai ei gael ar werth eiddo preswyl. Gallai gostyngiad mewn prisiau tai olygu fod mwy o bobl yn gallu fforddio i brynu tai.<br><br>Disgwylir hefyd y bydd mwy o eiddo ar gael yn yr ardal ar gyfer pobl sydd yn dymuno cael cartref yma, boed hynny'n bobl leol neu bobl yn symud i'r sir o fannau eraill.<br><br>Ar y llaw arall pe effeithir ar werth eiddo, mae yna siawns y gallai hynny effeithio ar safonau byw perchnogion yr eiddo dan sylw a'u gwthio hwy i sefyllfa o anfantais economaidd.<br><br>Ymhellach mae yna fygythiad fod y bwriad yn mynd i effeithio ar y sector twristiaeth, gyda llai o ddarpariaeth o lety gwyliau gall hynny wedyn olygu llai o bobl yn gyflogedig yn y maes gwaith hwn a'r sgil effeithiau cysylltiedig o fewn y farchnad gwaith. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Nid yw'r Canllaw Cynllunio Atodol (sydd yn deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig) yn gweithredu ar sail unrhyw gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu nac erledigaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Prif nod yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol yw ceisio rhoi arweiniad polisi clir ar yr ystyriaethau polisi cynllunio sydd yn berthnasol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Mae'r arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw yn ceisio hwyluso a sicrhau cyfleoedd i bobl fyw yn eu cymunedau. Bydd hefyd yn ychwanegu at siawns pobl i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned drwy'r broses o gyflwyno ac ymgynghori ar y ceisiadau cynllunio cysylltiedig. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gall y bwriad hyrwyddo perthnasau da gyda phobl o fewn cymunedau Gwynedd gan y byddai, yn gymorth i roi cyfle i bobl Gwynedd fyw yn eu hardal o ddewis. Gan hynny gobeithir y bydd yna ymdeimlad o degwch a chyfleoedd cyfartal yn bodoli yng nghymunedau Gwynedd. Wedi dweud hynny gallai gael effaith negyddol, ar siawns o gamddehongli bwriad y cynnig, achosi drwgdeimlad. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Bydd y broses o baratoi a chymeradwyo'r CCA yn cael ei wneud yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Fel nodir yn 3.1 uchod, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan, gobeithir fod yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw yn amlygu'r amcan ehangach o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, sef gwarchod cymunedau y sir, creu cymunedau cytbwys a sicrhau fod yna gyfleoedd i bobl fyw yn lleol.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Yn dilyn y broses ymgynghori fe fydd angen ail-ymweld a'r agwedd yma er mwyn sicrhau fod yr adborth a dderbynnir yn cael ei adlewyrchu a'i ymgorffori yn y ddogfen terfynol.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Fel nodwyd yn rhan 2 uchod, prif amcan yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol yw ceisio gwyrdroi'r anghyfartaledd cymdeithasol sydd yn bodoli yn rhai o gymunedau Gwynedd, gan geisio sicrhau fod yna ddarpariaeth o dai ar gael i ddiwallu angen lleol. Gobeithir fod yr arweiniad yn hyrwyddo creu cymunedau cynaliadwy a chytbwys yn unol a amcan greiddiol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol gan nad yw'n fater strategol. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Credir y bydd cyflwyno'r CCA yn cael effaith positif ar bob unigolyn gan gynnwys unigolion sydd â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig.<br><br>Mae'r anghyfartaledd cymdeithasol sydd yn bodoli ar hyn o bryd mewn rhai cymunedau yn sgil y diffyg argaeledd o dai ynghyd a phrisiau tai sydd tu hwnt i gyrraedd yn creu cymdeithas ranedig anghynaladwy. Mewn ymgais i geisio gwyrdroi'r sefyllfa bresennol mae'r CCA yn mynd i roi'r cyfle i asesu priodoldeb unrhyw fwriad sydd yn ymwneud a newid defnydd tŷ preswyl i ddefnydd gwyliau, boed hynny yn ddefnydd llety gwyliau neu ail-gartref yn unol â'r arweiniad polisi cynllunio lleol. Gobeithir y bydd hyn yn creu cymdeithas decach ac yn sicrhau cyfleoedd i bawb fod yn gallu byw yn eu hardal o ddewis. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Mae'r Asesiad (gweler rhan 3 uchod) yn adnabod rhai effeithiau posib a allai ddeillio o weithredu'r CCA. Ni ragwelir fod y rhain yn effeithiau sylweddol. Bydd yr asesiad yma yn cael ei ddiweddaru yn sgil y cyfnod ymgysylltu a bydd yn sicr yn nodi unrhyw effeithiau sylweddol negyddol fydd yn cael eu hamlygu. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | ✓ |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad yn gysylltiedig a mabwysiadu'r CCA, mae pob ymgais wedi ei wneud i sicrhau fod effeithiau negyddol yn cael ei hamlygu a'i liniaru.<br><br>Wedi'r cyfnod ymgysylltu, os daw i'r amlwg fod yna effeithiau sydd wedi ei heithrio o'r asesiad yma bydd fersiwn diwygiedig o'r asesiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cabinet wrth wneud y penderfyniad terfynol parthed mabwysiadu'r CCA ai pheidio. Bydd yr Asesiad hynny yn cynnig cyfle i gyfarch unrhyw faterion hanfodol. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Gweler yr ymateb i 4.4 uchod. |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mae yna fframwaith fonitro wedi cael ei baratoi sydd yn benodol berthnasol i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Yn gysylltiedig â'r fframwaith fonitro, mae rhai o'r dangosyddion yn ymwneud a'r broses o ystyried ceisiadau cynllunio sydd yn deillio o weithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn elfen greiddiol o'r ystyriaethau sydd yn berthnasol ar gyfer ceisiadau Cynllunio.<br><br>Bydd trafodaethau pellach gyda swyddogion yr Awdurdod ynglŷn â'r uchod yn cael ei gynnal er mwyn derbyn eu mewnbwn a'i harweiniad hwy wrth fynd ati adrodd ar y Fframwaith Fonitro.<br><br>Yn dilyn y broses ymgysylltu, pe ystyrir yn briodol fe fydd y Fframwaith Fonitro hwn yn cael ei adolygu/ddiweddaru yn unol â'r angen. Bydd yr asesiad yma yn cael ei ddiweddaru hefyd. |